# PWYLLGOR ARCHWILIO PERFFORMIAD

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 9 Mehefin 2016 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Cynghorwyr Raymond Bartley, Meirick Davies, Colin Hughes, Geraint Lloyd-Williams, Barry Mellor (Chair), Dewi Owens, Arwel Roberts and Gareth Sandilands

Mynychodd yr Aelodau Arweiniol, y Cynghorwyr Bobby Feeley, Hugh Irving a Julian Thompson Hill ar wahoddiad y Pwyllgor.

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (MM), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS), Prif Reolwr - Cefnogaeth Busnes (TW), Rheolwr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol (GL), Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol (VR), Cydlynydd Craffu (RE) a Gweinyddwr y Pwyllgor (SLW)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Joe Welch

## 2 PENODI IS-GADEIRYDD

Gofynnwyd am enwebiadau i Aelod wasanaethu fel Is-Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn gyngor 2016/17. Cafodd y Cynghorydd Arwel Roberts ei enwebu gan y Cynghorydd Raymond Bartley, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Gareth Sandilands. Ni dderbyniwyd unrhyw enwebiadau eraill ac felly;

***PENDERFYNWYD*** *y dylid penodi'r Cynghorydd Arwel Roberts yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio Perfformiad ar gyfer y flwyddyn ddinesig 2016/17.*

## 3 DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

## 4 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim.

## 5 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd ar 12 Ebrill 2016 a 28 Ebrill 2016.

12 Ebrill 2016

Dywedodd y Cynghorydd Arwel Roberts nad oedd y pwynt roedd wedi'i godi yn ystod y cyfarfod ynghylch nifer o Aelodau Pwyllgor Archwilio Perfformiad a oedd yn aelodau o'r Grŵp Tasg a Gorffen wedi cael ei gynnwys yn y cofnodion.

Gofynnodd y Cynghorydd Gareth Sandilands i gael gwybod pryd y byddai'r Pennaeth Gwasanaethau Cefnogi Cymunedol yn mynychu Pwyllgor Archwilio Perfformiad i roi diweddariad i'r Aelodau o'r Gwasanaethau Gofal Mewnol.

Cadarnhaodd y Cadeirydd nad oedd dyddiad wedi ei osod, ond ei bod yn debygol y byddai pob preswylfa yn cael ei gyflwyno yn unigol.

28 Ebrill 2016

Tudalen 19 Eitem 4 Cofnodion y cyfarfod diwethaf - Cludiant Ysgolion Cynradd. Dywedodd y Cynghorydd Arwel Roberts nad oedd mater ynghylch llwybr Rhuddlan i Ysgol Dewi Sant wedi cael ei ddatrys eto. Mynegodd yr Aelodau eu pryderon a dweud fod diogelwch y plant yn hollbwysig.

Cadarnhaodd y Cydlynydd Archwilio y byddai'r Adolygiad o Gludiant Ysgol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau ar 30 Mehefin 2016. Awgrymodd y Prif Weithredwr y gallai'r adroddiad gynnwys problem Rhuddlan i Ysgol Dewi Sant ar gyfer trafodaeth bellach.

Roedd arbenigwyr y Cyngor wedi asesu'r llwybr o Ruddlan i Ysgol Dewi Sant ac wedi cadarnhau ei fod yn llwybr diogel. Roedd aelodau a thrigolion lleol wedi anghytuno â'r asesiad. Dywedodd y Cynghorydd Roberts nad oedd y trefniadau cludiant ysgol dros dro yr oedd wedi'u trefnu i fynd â phlant o Ruddlan i'r ysgol, yn gynaliadwy yn y tymor hir.

Tudalen 20 Eitem 4 Cyflwyno Cyflymu Cymru BT yn Sir Ddinbych - cytunwyd y dylid cadw'r eitem ar y Rhaglen Waith i'r Dyfodol a'n bod yn aros am wybodaeth gan Lywodraeth Cymru ynghylch "mannau gwan". Awgrymodd y Prif Weithredwr y dylai Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio Perfformiad anfon llythyr at Lywodraeth Cymru os nad ydym yn derbyn gwybodaeth am "mannau gwan".

***PENDERFYNWYD –*** *y dylid, yn amodol ar yr uchod, derbyn a chymeradwyo Cofnodion y cyfarfod Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd ar 28 Ebrill 2016 fel cofnod cywir.*

**6 ADRODDIAD PERFFORMIAD Y CYNLLUN CORFFORAETHOL - CHWARTER 4 2015/16**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Gyllid, y Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad, y Cynghorydd Julian Thompson Hill yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) a oedd yn rhoi diweddariad ar y gwaith o gyflawni'r Cynllun Corfforaethol 2012-17 fel yr oedd ar ddiwedd Chwarter 4 2015-16.

Yn y fan hon, cyflwynodd yr Aelod Arweiniol y Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol a benodwyd yn ddiweddar, Vicki Robarts a chroesawodd hi i'w chyfarfod Pwyllgor Archwilio cyntaf.

Pwysleisiodd yr Aelod Arweiniol wrth y Pwyllgor fod y gwelliant neu ddirywiad mewn perfformiad o un chwarter i'r llall fel arfer yn fach iawn oherwydd natur hirdymor y Cynllun. Rhoddodd grynodeb o'r negeseuon perfformiad allweddol ar gyfer Chwarter 4 2015-16 fel y manylir yn Atodiad 1 i'r adroddiad, gan ddweud:

- roedd tri "canlyniad" o dan flaenoriaeth datblygu'r Economi lleol a gafodd eu dosbarthu fel "derbyniol", fodd bynnag, byddai angen gwelliant ym mherfformiad y canlyniadau hyn. Serch hynny, roedd ffactorau allanol sy'n lliniaru yn erbyn gwelliant yn y dangosyddion hyn ar hyn o bryd;
- roedd canran y plant rhwng 16 a 18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yn faes arall yr oedd angen ei wella ymhellach. Roedd yn braf nodi bod y duedd tair blynedd o ran y nifer o bobl ifanc oedd wedi'u dosbarthu fel NEET yn dod i lawr;
- tra bu gwelliant (lleihad) yn nifer yr oedolion sydd angen gofal preswyl, mae angen gwella perfformiad o ran y dangosydd perfformiad sy'n ymwneud â chanran y boblogaeth nad ydynt yn gallu byw yn annibynnol (18 oed a throsodd);
- mae'r sefyllfa economaidd bresennol a diffyg hyder yn y farchnad dai yn golygu nad oedd datblygwyr yn gwneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau tai maint canolig i fawr. Yn ei dro, mae hyn yn cael effaith ar y dangosydd perfformiad (DP) sy'n ymwneud â nifer yr unedau tai fforddiadwy a gafodd ganiatâd cynllunio; a
- gan nad yw Nwy Prydain, darparwr ynni'r Cyngor wedi gallu darparu dadansoddiad o allyriadau carbon y Cyngor, nid oedd modd i'r Cyngor adrodd yn erbyn y DP hwn. Roedd y Cyngor wedi newid darparwr ynni ers mis Ebrill, felly yn y dyfodol, byddai modd adrodd yn erbyn y DP hwn.

Wrth ymateb i gwestiynau'r Aelodau, cadarnhaodd yr Aelod Arweiniol a Swyddogion:

- er y bu llithriad mewn perfformiad o ran nifer y dyddiau calendr a gymerwyd i ail-osod eiddo stoc tai cyngor, roedd rhesymau dilys dros hyn yn gysylltiedig â sicrhau bod yr eiddo o safon uchel wrth gael eu hail-osod (cafodd adroddiad ar berfformiad yn y maes hwn ei drefnu i'w gyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 14 Gorffennaf 2016);
- ar y cyfan roedd yr adborth gan y gymuned fusnes o ran y gefnogaeth sydd ar gael iddynt gan y Cyngor wedi bod yn gadarnhaol. Fodd bynnag, bu angen gwella perfformiad ymhellach mewn perthynas â'r flaenoriaeth hon a gwella cyfathrebu rhwng y gwahanol fudd-ddeiliaid. Roedd angen hefyd i fusnesau fod yn fwy craff, e.e. addasu eu horiau agor i gyd-fynd â gofynion a disgwyliadau'r cyhoedd;
- byddent yn dilyn pryderon ynghylch glendid strydoedd a'r oedi wrth dorri gwair ym mynwentydd y sir o ganlyniad i broblem gyda'r contractwr. Byddent yn edrych sut y gallai cyfathrebu gydag aelodau lleol o ran oedi neu broblem gyda materion parth cyhoeddus gael eu cryfhau.

Mewn perthynas â'r flaenoriaeth "Moderneiddio'r Cyngor i Gyflenwi Effeithlonrwydd", gofynnodd yr Aelodau i'r Swyddogion holi am y nifer o broblemau a dderbyniwyd gan Gynghorwyr mewn perthynas â rhyngweithio rhwng Microsoft Outlook a'u i-pads cyngor i ganfod a oedd yn fater arwyddocaol a oedd yn haeddu ateb hirdymor cyn etholiadau awdurdodau lleol y flwyddyn nesaf a derbyn Cynghorwyr newydd.

Ar ddiwedd y drafodaeth:

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar y meysydd a restrir uchod sy'n cael ei archwilio ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor:*

- *(i) derbyn yr adroddiad a nodi perfformiad y Cyngor o ran cyflawni ei Gynllun Corfforaethol yn ystod Chwarter 4, 2015-16, a*
- *(ii) bod adroddiad ar berfformiad y Cyngor wrth gyflawni ei Strategaeth Gwrth-Faeddu, gan gymryd camau gorfodi a chyflwyno Gorchmynion Rheoli Cŵn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf (yr adroddiad i gynnwys gwybodaeth am y defnydd a chost o ddefnyddio offer Teledu Cylch Caeedig ar gyfer gweithgaredd gorfodi).*

## 7 ADRODDIAD BLYNYDDOL IECHYD CORFFORAETHOL, DIOGELWCH A LLES 2015/16

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Gyllid, y Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad, y Cynghorydd Julian Thompson Hill, adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i roi diweddariad blynyddol ar reoli Iechyd a Diogelwch yng Nghyngor Sir Ddinbych o safbwynt y tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.

Amlinellodd y Rheolwr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol y gwahanol ffurfiau i gyflwyno ystadegau Iechyd a Diogelwch. Roedd y fformatau amrywiol hyn a'r manylion a gynhwysir ynddynt yn hynod o ddefnyddiol i Swyddogion Iechyd a Diogelwch wrth ymgymryd â'u gwaith. Wrth ymateb i gwestiynau'r Aelodau, cadarnhaodd yr Aelod Arweiniol a Rheolwr:

- Bod y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol yn monitro ystadegau damweiniau bob chwarter a byddai unrhyw fater o bryder a godwyd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu harchwilio ac adrodd yn ôl ar hyn mewn cyfarfodydd yn y dyfodol;
- Roedd ystadegau a digwyddiadau Sir Ddinbych yn debyg i'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol ar draws y DU, ond roedd yna duedd cenedlaethol i dan-adrodd ystadegau iechyd a diogelwch;
- yn gorfforaethol, roedd pob digwyddiad yn cael eu cofnodi a'u cynnwys yn yr adroddiadau ystadegol. Mewn ysgolion, nid yw mân ddigwyddiadau ar y cae chwarae yn cael eu hadrodd i'r ganolfan gorfforaethol, dim ond achosion o natur fwy difrifol sy'n cael eu hadrodd;
- roedd tueddiadau blynyddol yn y nifer o achosion a gofnodwyd yn ogystal â thueddiadau tymhorol h.y. llai o achosion yn cael eu cofnodi yn yr ysgolion yn ystod yr haf oherwydd gwyliau haf yr ysgol;
- gwnaed pob ymdrech i liniaru risg gynyddol o ddigwyddiadau iechyd a diogelwch yn y gwasanaethau a oedd wedi bod yn destun toriadau staffio drwy sicrhau bod yr holl reolwyr yn y gwasanaethau hynny yn cael eu

hyfforddi'n llawn wrth reoli materion yn ymwneud ag iechyd a diogelwch.Ni fu unrhyw gynnydd yn nifer y digwyddiadau a gofnodwyd yn y gwasanaethau a oedd wedi bod yn destun gostyngiadau staffio;

- yn ystod blwyddyn 2016/17, byddai'r Gwasanaeth yn edrych ar sut i wella rheolaeth iechyd a diogelwch ar gyfer unigolion sy'n gweithio ar eu pen eu hunain;
- roedd y cyngor yn dal i aros am ganlyniadau'r ymarfer monitro radon mewn eiddo sy'n eiddo i'r cyngor. Gallai canlyniadau'r gwaith monitro fod yn broblem bosibl i'r cyngor yn dibynnu ar y canlyniad, oherwydd os yw unrhyw eiddo wedi'i gofnodi ar lefel radon o 10% neu uwch, byddai angen monitro pob eiddo o fewn radiws o 1 filltir ar gost o tua £30 fesul eiddo.

Ar ddiwedd y drafodaeth, diolchodd y Pwyllgor i'r Rheolwr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol a'i dîm am eu holl waith diwyd, a:

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar y sylwadau uchod, bod y Pwyllgor yn derbyn yr adroddiad blynyddol ar weithgareddau a sylwadau'r tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.*

**EGWYL RHWNG 11.05 A.M. A 11.15 A.M.**

Yn y fan hon, cytunodd y Cadeirydd i newid trefn y busnes a nodir yn y Rhaglen.

## 8 ADRODDIAD EICH LLAIS – CHWARTER 4 2015/16

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Gwsmeriaid a Llyfrgelloedd, y Cynghorydd Hugh Irving, adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn darparu trosolwg o'r sylwadau da, awgrymiadau a chwynion y mae Cyngor Sir Ddinbych wedi eu derbyn dan 'Eich Llais' (polisi adborth cwsmeriaid y cyngor) yn ystod Chwarter 4 2015/16.

Eglurodd Y Prif Reolwr: Gwasanaethau Cefnogi, nad oedd y targed corfforaethol o 95% wedi cael ei gyrraedd oherwydd natur gymhleth rhai o'r cwynion, cafodd manylion y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â rhai o'r cwynion eu crynhoi yn yr adroddiad. Gosodwyd y targed yn flaenorol ar drothwy uchel gyda'r bwriad o sicrhau y gallai'r cyngor wneud pob ymdrech yn gorfforaethol i'w gyrraedd a cheisio gwella ei berfformiad a gwasanaethau i'r trigolion. Wrth ymateb i gwestiynau'r Aelodau, cadarnhaodd yr Aelod Arweiniol a Prif Reolwr:

- o ddechrau'r flwyddyn adrodd 2016/17, byddai cwynion yn ymwneud â gwasanaethau sy'n cael eu cyflwyno gan y Cyngor a gwasanaethau a gomisiynwyd gan y Cyngor gan ddarparwr allanol, yn cael eu cofnodi ar wahân;
- cadarnhaodd bod cwynion a chanmoliaeth ar gyfer Gwasanaethau Amgylcheddol Priffyrdd yn cael eu cofnodi fel un ffigur. Nid yw'n cael ei wahanu mewn i ffigurau adrannol, gan fod y Gwasanaeth yn un Gwasanaeth sy'n cael ei reoli gan un Pennaeth Gwasanaeth;

- cytunodd bod y nifer o ganmoliaethau a dderbyniwyd gan y cyngor wedi bod yn arbennig o galonogol;
- dywedodd fod y ffigurau a nodwyd yn yr adroddiad yn gysylltiedig â "cwynion", nid oedd yn cynnwys "ceisiadau am wasanaeth" a dderbyniwyd gan Gynghorwyr gan eu bod yn "geisiadau" nid "cwynion";
- gofynnodd i'r Aelodau, wrth wneud ceisiadau am wasanaethau ar ran preswylwyr, dylent gyfeirio'r ymholiadau hynny trwy'r system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM) a pheidio â chysylltu â swyddogion yn uniongyrchol, fel arall byddai'r wybodaeth ystadegol am niferoedd o geisiadau am wasanaeth yn anghywir;
- dywedodd fod y cyngor wrthi'n edrych ar y dull gorau o ddarparu gwasanaethau i gwsmeriaid – bydd trafodaeth yn digwydd gydag Uwch Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor (UDA) ar ddulliau arfaethedig o ddarparu gwasanaeth.

O ran y drafodaeth sydd i ddod ar ddarparu gwasanaethau cwsmeriaid, gofynnodd yr Aelodau a oedd modd cynnwys system EMMA o fewn cwmpas yr adolygiad gan eu bod yn teimlo nad oedd yn arbennig o hawdd i'w ddefnyddio. Er bod y cysyniad y tu ôl iddo yn ardderchog, a bod Aelodau yn deall yr angen i ddiogelu gwybodaeth bersonol trigolion, roeddynt yn teimlo ei bod yn feichus ac yn cymryd llawer o amser i lywio er mwyn dilyn yr ymholiadau a godwyd.

Yn dilyn trafodaeth fanwl:

***PENDERFYNODD y Pwyllgor*** *yn amodol ar y sylwadau ac ymholiadau uchod a wnaed mewn perthynas â'r ymholiad yn ymwneud â'r system EMMA, derbyn yr adroddiad a'i gynnwys.*

## 9 ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL: 2015/16

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol (Gwasanaethau Oedolion a Phlant), y Cynghorydd Bobby Feeley, yr adroddiad (a ddosbarthwyd eisoes) er mwyn galluogi'r Aelodau i graffu ar yr adroddiad drafft cyn iddo gael ei gyflwyno i Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

Pwysleisiodd yr Aelod Arweiniol nad oedd darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i drigolion y sir, a newid moderneiddio'r gwasanaethau hynny, yn destun cyfyngiadau cyllidebol yn unig. Mae gofynion y Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 yn golygu bod angen nifer o newidiadau i'r ffordd y cafodd gwasanaethau eu cyflwyno yn y gorffennol. Yn y dyfodol byddai mwy o bwyslais ar gefnogi pobl i fyw mor annibynnol â phosibl am gyhyd ag y bo modd, gydag ymagwedd fwy rhagweithiol, ataliol, ymyrryd at ddarparu gwasanaeth yn hytrach na chreu diwylliant o ddibyniaeth ar wasanaethau math gofal preswyl.

Yn ei rôl yn Gyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau, manylodd ar gynnwys ei hadroddiad, gan bwysleisio, er bod yr adroddiad yn ei henw, roedd y gwaith a grynhowyd oddi mewn yn ffrwyth y gwasanaeth gofal cymdeithasol cyfan. Mynegodd ddiolch arbennig i Bennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, Leighton Rees a ymddeolodd yn ddiweddar, ac i'r Pennaeth Addysg, Karen Evans

am eu holl ymdrechion i baratoi'r ffordd ar gyfer uno Gwasanaethau Addysg a Gwasanaethau Plant a sicrhau trosglwyddiad mor esmwyth i un Gwasanaeth Plant ac Addysg.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol wrth yr Aelodau:

- bod ei hadroddiad ar gyfer 2015/16 wedi cael ei gyflwyno mewn fformat diwygiedig er mwyn cydymffurfio â newidiadau deddfwriaethol a darparu fframwaith newydd er mwyn mesur perfformiad gofal cymdeithasol;
- roedd yn ofynnol i'r Cyfarwyddwr ddynodi cryfderau a gwendidau'r Gwasanaeth yn yr adroddiad, ac amlinellu cynlluniau i gryfhau'r gwendidau a nodwyd;
- roedd y Gymraeg yn bwysig i'r Gwasanaeth a derbyniwyd fod darparu gwasanaethau trwy gyfrwng dewis iaith y defnyddwyr gwasanaeth yn egwyddor ganolog o wasanaeth gofal cymdeithasol da; ac
- roedd ei ffocws ar wneud gwahaniaeth i fywydau pobl a chadw pobl yn annibynnol am gyn hired ag y bo modd. Gwella ansawdd bywydau yw’r nod yn y pendraw, osgoi'r angen am wasanaethau statudol am gyhyd ag y bo modd yn amodol ar sicrhau diogelwch y defnyddwyr gwasanaethau.

Llongyfarchodd yr Aelodau waith yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol o ran ymdrechu i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg i oedolion. Fodd bynnag, roedd ganddynt bryderon mewn perthynas â gwasanaethau tebyg ar gyfer plant, yn enwedig gan fod Twf wedi ei dynnu'n ôl. Wrth ymateb i'r pryderon hyn, dywedodd y Cyfarwyddwr mai dim ond yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy roedd Twf yn gweithredu yn y gogledd erbyn hyn. Roedd Dechrau'n Deg yn brosiect blynyddoedd cynnar arall oedd yn cael ei fygwth gan doriadau cyllid. Serch hynny, roedd Sir Ddinbych yn hyderus y byddai ei ddull o ran dwyn Gwasanaethau Addysg a Phlant ynghyd yn cynorthwyo gydag ymgorffori sgiliau ieithyddol drwy gydol addysg y blynyddoedd cynnar, addysg prif ffrwd a gwasanaethau ieuenctid.

Wrth ymateb i bwyntiau eraill a godwyd gan Aelodau, dywedodd y Cyfarwyddwr:

- mewn perthynas â'r adolygiad o wasanaethau gofal i oedolion yn fewnol, byddai'r manylion y gofynnodd y Pwyllgor Archwilio a’r Cabinet amdanynt mewn perthynas â phob sefydliad yn cael eu cyflwyno i’r Pwyllgor Archwilio cyn gynted ag y bo modd, unwaith y byddai’r gwaith a’r dadansoddi sydd ei angen yn cael ei gwblhau. Roedd yn debygol na fyddent yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu gyda'u gilydd, ond rhagwelir y byddai pob un yn cael ei gyflwyno cyn diwedd y flwyddyn galendr;
- bod angen cydbwysedd yn yr adroddiad rhwng cyfleu negeseuon pwysig a chynnwys y lefel briodol o fanylder, h.y. gwybodaeth am nod adolygiad darpariaeth gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion yn fewnol yn y dyfodol a’r nifer o bobl sy’n defnyddio gwasanaethau sy’n cael eu rhedeg gan y cyngor o gymharu â gwasanaethau preifat/annibynnol. Roedd y wybodaeth olaf ar gael am ddim i’r cyhoedd yn nogfennau eraill y cyngor sydd wedi’u cyhoeddi;
- bu cydweithrediad rhagorol ar bob lefel yn ystod y gwaith i ddod â'r Gwasanaeth Addysg a'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd at ei gilydd fel un

gwasanaeth. Roedd staff yn y ddau wasanaeth wedi bod yn hynod gadarnhaol am yr uno ac ar lefel strategol, roedd yr Aelodau Arweiniol a’r Arweinydd yn rhan o gyfarfodydd rheolaidd gyda’r bwriad o sicrhau uno llyfn;

- roedd hi’n ymwybodol o erthyglau diweddar yn y wasg mewn perthynas â chynnydd yn nifer yr hunanladdiadau ymhlith y boblogaeth o ddynion ifanc yn y Gogledd a'r pryderon a godwyd gan Grwner Ei Mawrhydi mewn perthynas ag achosion unigol. Roedd gan Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol ar draws y rhanbarth hefyd bryderon o ran y digwyddiadau hyn ac roeddynt yn sefydlu bwrdd i archwilio mynediad i wasanaethau iechyd meddwl aciwt. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod Llywodraeth Cymru (LlC) wrthi’n adolygu darpariaeth iechyd meddwl acíwt ar draws Cymru, a bod y Cyfarwyddwr a chydweithwyr wedi cyfarfod â swyddogion LlC yn Ysbyty Glan Clwyd yn ddiweddar i drafod eu pryderon am y ddarpariaeth iechyd meddwl yn y rhanbarth. Roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) wedi penodi Cyfarwyddwr Gweithredol gwasanaethau Iechyd Meddwl newydd yn ddiweddar. Mae dadansoddiad cychwynnol o'r achosion o hunanladdiad ymhlith dynion ifanc yn dangos nad oedd gan yr unigolion broblemau iechyd meddwl tymor hir, ond roeddynt yn fwy tebygol o fod wedi wynebu sefyllfa “argyfwng” yn syth cyn lladd eu hunain yn hytrach na dioddef o broblem iechyd meddwl;
- roedd oedi wrth drosglwyddo gofal o ysbytai i gartref defnyddwyr gwasanaeth yn dueddol o ddigwydd pan fo angen pecynnau gofal cymhleth iawn oherwydd iechyd a/neu anghenion gofal defnyddwyr gwasanaeth. Nid yw'r broblem hon yn unigryw i Sir Ddinbych, mewn gwirionedd, mae gan Sir Ddinbych un o'r cyfraddau oedi wrth drosglwyddo gofal isaf yng Nghymru;
- mi chafodd unrhyw gyfeiriadau penodol eu cynnwys yn yr adroddiad drafft ar ddarpariaeth gofal ychwanegol posibl yn ardal Dyffryn Dyfrdwy gan fod tai gofal ychwanegol yn yr ardal benodol yma o’r sir yn nodwedd o'r Cynllun Corfforaethol cyfredol. Serch hynny, petai Aelodau'n dymuno, gellir cyfeirio at gyfleusterau gofal ychwanegol arfaethedig yn ardal Corwen.

Cyn diwedd y drafodaeth, dywedodd y Swyddogion wrth symud ymlaen, roedd angen brys am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Gofal Iechyd i weithio'n agos gyda'i gilydd i ddod o hyd i ateb ar sut i integreiddio Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn effeithiol. Nid am ddibenion ariannol yn unig, ond i ateb y galw yn y dyfodol, a oedd oherwydd newidiadau demograffig, yn alw cynyddol ar y ddau wasanaeth.

Diolchodd yr Aelodau i'r Cyfarwyddwr am ei adroddiad manwl a:

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol 2015/16 i'w gyflwyno i'r Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).*

## 10 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Roedd copi o adroddiad gan y Cydlynydd Archwilio, a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei Raglen Gwaith i'r Dyfodol ac yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol, wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Roedd copi o dempled ‘ffurflen cynnig Aelodau” wedi’i gynnwys yn Atodiad 2, roedd Rhaglen Waith i’r Dyfodol y Cabinet wedi’i gynnwys fel Atodiad 3, ac roedd tabl yn crynhoi datrysiadau diweddar y Pwyllgor ac yn cynghori am gynnydd wrth eu gweithredu wedi’i atodi yn Atodiad 4.

Ystyriodd y Pwyllgor ddrafft o’i Raglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol fel a ganlyn:

14 Gorffennaf 2016
Cynnwys baw cŵn.
Gwahodd Aelodau Arweiniol i fynychu'r cyfarfod.

29 Medi 2016
Gohirio Tai Fforddiadwy tan gyfarfod 29 Medi.

Trafodwyd cynrychiolaeth y Pwyllgor ar Grwpiau Herio Gwasanaethau ac fe awgrymwyd bod y Cynghorydd Joe Welch a'r Aelod newydd, pan y caiff ei b/phenodi, yn cael ei g/wahodd i gynrychioli'r Pwyllgor ar y Grwpiau Herio Gwasanaethau.

***PENDERFYNWYD** yn amodol ar yr uchod, cymeradwyo’r Rhaglen Waith fel y caiff ei hamlinellu yn Atodiad 1 yr adroddiad.*

## 11 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Dywedodd y Cynghorwyr Geraint Lloyd Williams a Dewi Owens eu bod wedi mynychu cyfarfod y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch Corfforaethol, ond nid oedd gan y Pwyllgor gworwm.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies ei fod wedi mynychu cyfarfodydd herio gwasanaeth Priffyrdd a Chynllunio a Gwarchod y Cyhoedd. Cafwyd trafodaeth ynghylch, Taliadau Parcio, Cludiant Ysgol, Asiantaeth Cefnffyrdd a Gwastraff ac Ailgylchu.

Adroddodd y Cynghorydd Dewi Owens yn ôl ar gyfarfod Grŵp Monitro Safonau Ysgolion diweddar (GMSY) roeddynt wedi’i fynychu ac roedd cynrychiolwyr o ysgolion yn Llangollen wedi bod yn bresennol. Roedd yn ymddangos bod yna bryderon ynghylch diffyg posibl o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion sy'n gadael Ysgol y Gwernant a throsglwyddo i Ysgol Dinas Brân.

***PENDERFYNWYD** y dylid derbyn a chofnodi’r adborth.*

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.30 pm.**